TPAS CYMRU
You matter | Ti'n cyfri

# Y 4 Gwych: ein sesiynau hyfforddi pwnc llosg diweddaraf

**Dyma flas yn unig o rai o'n sesiynau hyfforddi a dysgu, y gellir eu cyflwyno'n fewnol wedi eu teilwra i ddiwallu anghenion eich sefydliad neu grŵp. I weld ein hystod lawn o sesiynau gweler ein pamffled hyfforddi llawn ar ein gwefan neu cysylltwch â ni.**

## 1 Felly beth?! - Sut i sicrhau bod eich gweithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid a Chymunedau yn gwneud gwahaniaeth

**Dylai Cyfranogiad Tenantiaid a Chymunedau gael eu cynllunio a'u cyflwyno i wneud gwahaniaeth go iawn felly mae'n hanfodol bod yn glir beth fydd eich deilliannau arfaethedig a sut y byddwch yn eu dangos.**

Bydd y sesiwn hon yn eich helpu i gael pwrpas clir i gyfranogi trwy archwilio a deall y canlyniadau rydych chi am eu cyflawni.

Byddwn hefyd yn archwilio ffyrdd ymarferol o 'fesur' a dangos y gwahaniaeth y mae eich gweithgareddau cyfranogiad yn ei wneud. Cyn bo hir, byddwch yn canolbwyntio ar 'ddeilliannau ac nid yn allbynnau'!

### Beth fydd y sesiwn yn ei gynnwys:

- Beth yw 'deilliannau'?
- Nodi deilliannau – cynlluniedig & anfwriadol
- Beth sydd angen bod ar waith er mwyn canolbwyntio ar 'ddeilliannau'?
- Esiamplau o sut i fesur a dangos deilliannau

## 2 Defnyddio Digidol ar gyfer Ymgysylltu â Thenantiaid a'r Gymuned

**Fel arbenigwyr ymgysylltu yng Nghymru gallwn ddarparu hyfforddiant a fydd yn newid y ffordd yr ydych yn ymgysylltu â'ch cymunedau. Gallwn ddangos i chi sut i ehangu a thrawsnewid eich ymgysylltiad gan ddefnyddio technegau digidol syml ond effeithiol.**

### Bydd y sesiwn yn cynnwys:

Mae'n llawn syniadau, ond mae'n hwyl, yn ymarferol ac mae'n cynnwys enghreifftiau clir o ystod eang o sectorau o Gymru a thu hwnt. Fe gewch eich ysbrydoli! Byddwn yn gorffen y diwrnod gyda golwg ar dechnoleg newydd a fydd yn effeithio ar sut y bydd pobl yn ymgysylltu â'i gilydd yn y dyfodol.

Cafodd yr hyfforddiant hwn ei ddatblygu yn y 12 mis diwethaf, ond mae'n cael ei diweddaru bob mis gyda deunydd newydd. Fe'i cyflwynwyd i nifer o Landlordiaid ac Awdurdodau Lleol hyd yma, i swyddogion a thenantiaid, a derbyniwyd adborth cadarnhaol iawn. Yn ogystal, mae sefydliadau'r trydydd sector megis MIND a BASW wedi elwa.

## 3 Cyfranogiad Tenantiaid mewn Trefniadau Iechyd a Diogelwch Landlordiaid

**Sut allwch chi gynnwys tenantiaid yn nhrefniadau iechyd a diogelwch landlordiaid? Bydd y cwrs ymarferol yma yn archwilio 3 dull o gynnwys tenantiaid ac yn eich helpu i roi'r argymhelliad allweddol hon gan Lywodraeth Cymru ar waith.**

Mae adroddiad diweddar Llywodraeth Cymru i drefniadau Iechyd a Diogelwch Landlordiaid yn cynnwys argymhelliad clir y dylai tenantiaid gymryd rhan mewn trefniadau iechyd a diogelwch landlordiaid. Pa drefniadau all eich sefydliad chi eu rhoi ar waith?

Bydd y cwrs hyfforddi newydd sbon hwn yn archwilio sut y gallai'r disgwyliad newydd hwn weithio'n ymarferol trwy edrych ar 3 dull ymarferol y gallech eu defnyddio.

### Beth fydd y sesiwn yn ei gynnwys:

- Cefndir a chyd-destun
- Archwilio 3 dull o gynnwys tenantiaid mewn trefniadau iechyd a diogelwch landlordiaid
- Bod yn agored a thryloyw
- Annog tenantiaid i ymgysylltu â threfniadau iechyd a diogelwch landlordiaid

## 4 Atebolrwydd a Thryloywder: cael y cyfan yn iawn ar gyfer Tenantiaid a Phreswylwyr

**Mae cael tryloywder ac atebolrwydd yn iawn yn hanfodol i adeiladu ymddiriedaeth a pherthynas â thenantiaid, preswylwyr a rhanddeiliaid cymunedol. Bydd y sesiwn gweithdy ymarferol yma yn archwilio syniadau a dulliau i alluogi landlordiaid i roi egwyddorion tryloywder ac atebolrwydd ar waith.**

Pa drefniadau a systemau ddylai landlordiaid eu rhoi ar waith?...dewch i glywed syniadau ymarferol yn ystod y dosbarth meistr hanfodol a phynciol ½ diwrnod yma.

### Bydd y sesiwn yn cynnwys:

- Cefndir a chyd-destun
- Y gwybodaeth y dylai landlordiaid ei rhannu nawr ac, yn y dyfodol
- Esiamplau o arfer da o bob cwr o'r DU
- Yr hyn sydd angen bod ar waith yn y sefydliad i wneud iddo weithio

## I gael sgwrs anffurfiol am unrhyw un o'n cyrsiau hyfforddi, cysylltwch â ni:

**02920 237303 / 01492 593046; enquiries@tpas.cymru**